YSGOL DAVID HUGHES

PORTHAETHWY
YNYS MÔN LL59 5SS

Ffôn: (01248) 712287
Ffacs: (01248) 713919
e-bost:pennaeth.davidhughes@ynysmon.gov.uk

MENAI BRIDGE
ISLE OF ANGLESEY LL59 5SS

Tel: (01248) 712287
Fax: (01248) 713919
e-mail:pennaeth.davidhughes@anglesey.gov.uk

Pennaeth/Headteacher
H Emyr Williams BSc MEd

BWLETIN RHIENI
PARENTS' BULLETIN

TACHWEDD/NOVEMBER
2014

RHAI DYDDIADAU PWYSIG
SOME IMPORTANT DATES

05.11.2014 + 10.11.2014		Arholiadau TGAU Mathemateg GCSE Mathematics Examinations
Dydd Mawrth/Tuesday **11.11.2014**	**4.00-6.00pm**	Noson agored i rieni Blwyddyn 6 Open evening for Year 6 parents
Dydd Gwener/Friday **14.11.2014**		Diwrnod 'Plant mewn Angen'- Diwrnod di-wisg 'Children in Need' Day – Non–Uniform day Caniateir i ddisgyblion wisgo gwisg eu hunain - ffi £1 Pupils allowed to wear their own clothes - £1 fee
17.11.2014 – 21.11.2014		Wythnos Gwrth-Fwlio Anti-Bullying Week
Dydd Iau/Thursday **20.11.2014**		Casglu Bocsys 'Operation Christmas Child' o'r ysgol. Collection of 'Operation Christmas Child' boxes from the school.
Dydd Mawrth/Tuesday **25.11.2014**	**3.30pm**	Noson Rhieni Blwyddyn 7 Year 7 Parents' Evening
Dydd Mawrth/Tuesday **25.11.2014**	**4.00-5.30pm**	Cyfle i rieni ddod i drafod unrhyw fater gyda'r Pennaeth. An opportunity for parents to discuss any matter with the Headteacher.
Dydd Gwener/Friday **28.11.2014**	**6.00pm**	Ffair Nadolig Christmas Fair
Dydd Mawrth/Tuesday **02.12.2014**	**9.00am**	Tynnu llun Blwyddyn 11 Year 11 Photographs
Dydd Mawrth/Tuesday **02.12.2014**	**10.30am**	Tynnu llun Blwyddyn 13 Year 13 Photographs
Dydd Mawrth/Tuesday **02.12.2014**	**3.30pm**	Noson Rhieni Blwyddyn 8 Year 8 Parents' Evening
08.12.2014 – 12.12.20134		Arholiadau Mewnol Blwyddyn 11 Year 11 Internal Examinations
Dydd Mercher/Wednesday **17.12.2014**	**7.00pm**	Cyflwyniad Nadolig yr ysgol Christmas Production at the school.

GWYLIAU'R NADOLIG

Bydd yr ysgol yn cau am wyliau'r Nadolig ar **brynhawn Gwener, 19 Rhagfyr 2014** ac yn ailagor i ddisgyblion ar **ddydd Llun, 5 Ionawr 2015**.

~ ~ ~ ~

CHRISTMAS HOLIDAYS

The school will close for the Christmas holidays on **Friday afternoon, 19 December 2014** and will re-open for pupils on **Monday, 5 January 2015**.

GAIR O DDIOLCH

1. MONITRO PRESENOLDEB

Diolch am eich cefnogaeth wrth i ni weithredu trefn cyswllt diwrnod cyntaf gyda rhieni ynglŷn ag unrhyw absenoldeb, drwy ddefnyddio system gyfathrebu 'Keep Kids Safe'. Mae system 'Keep Kids Safe at School' yn gallu anfon neges destun neu neges llais awtomatig yn uniongyrchol at rieni a gofalwyr.

1. Hoffwn i chi gysylltu gyda'r ysgol, cyn 8.30am, ar y bore cyntaf y mae eich plentyn yn absennol:
    - **Ffôn**: 01248 712287 (rhwng 8.00am ac 8.30am) neu 01248 718070 (peiriant ateb cyn 8.00am ac ar ôl 4.00pm) neu
    - **e-bost**: csg.davidhughes@ynysmon.gov.uk
2. Os na fydd yr ysgol wedi derbyn galwad ffôn erbyn 8.30 o'r gloch yn dweud wrthym pam nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna bwriedir cysylltu gyda'r cartref neu'r man gwaith.
3. Gofynnir i chi nodi rheswm dros yr absenoldeb yn nyddiadur eich plentyn.

Diolch.

2. MONITRO PRYDLONDEB

Mae gan yr ysgol weithdrefnau yn eu lle i fonitro prydlondeb a phresenoldeb ein disgyblion er mwyn sicrhau eu cynnydd academaidd a chymdeithasol. Mae perthynas rhwng prydlondeb da, cyrhaeddiad a chael swydd. Er gwybodaeth, dyma'r gweithdrefnau sydd yn eu lle i fonitro prydlondeb ein disgyblion. Diolch o flaen llaw am eich cydweithrediad.

CAM 1

Byddwn yn eich hysbysu drwy ddyddiadur eich plentyn o unrhyw broblem prydlondeb.

CAM 2

Os bydd eich plentyn yn hwyr ar 3 achlysur bydd ef/hi yn cael ei osod ar gerdyn monitro ac yn derbyn cosb egwyl a chinio.

CAM 3

Os nad yw prydlondeb eich plentyn yn gwella wedi cyfnod o fonitro, fe fyddwn yn galw cyfarfod rhwng y rhieni/gwarcheidwaid, Pennaeth Blwyddyn ac aelod o Uwch Dim Rheoli'r ysgol.

CAM 4

Os na fydd gwelliant wedi hyn, fe fydd yr ysgol yn cysylltu â'r Swyddog Lles Addysg.

3. GWISG YSGOL

Diolch am eich cydweithrediad er mwyn sicrhau cysondeb a pharch tuag at reolau ac ethos yr ysgol.

Hoffwn eich atgoffa o'r canlynol:-

- Mae caniatâd i'r disgyblion wisgo un pâr o studs yn y clustiau yn unig.
- Disgwylir i ddisgyblion gydymffurfio â steil a hyd gwallt rhesymol ac o liw naturiol.
- Disgwylir i ddisgyblion wisgo esgidiau du fel rhan o'r wisg ysgol.
- Nid ydym yn cymeradwyo'r defnydd o golur yn yr ysgol ond o'i wisgo rhaid i'r defnydd ohono fod yn gynnil.
- Dylai'r sgert fod at y penglin.

Diolch.

BLWYDDYN 10

Bydd disgyblion blwyddyn 10 yn cael asesiadau dan reolaeth mewn nifer o bynciau yn ystod yr wythnosau nesaf. Os ydynt yn dymuno defnyddio adnoddau cyfrifiadurol/llyfrgell o fewn neu tu allan i'r diwrnod ysgol arferol ar gyfer paratoi, gofynnir iddynt weld **Mrs Bethan Parry** (Pennaeth Blwyddyn 10) i drefnu amser.

Gofynnir yn ogystal am gydweithrediad rhieni i sicrhau bod y disgyblion yn gwneud y defnydd gorau o'u hamser yn ystod y cyfnod pwysig hwn.

BLWYDDYN 11

Mae'r flwyddyn yma yn hynod bwysig gan fod llwyddiant yn yr arholiadau allanol y flwyddyn nesaf yn dibynnu ar ymdrech gyson a gwaith caled drwy'r flwyddyn. Bydd disgyblion blwyddyn 11 yn wynebu arholiadau mewnol ar ddiwedd y tymor hwn. Mae'r wythnosau nesaf yn rhai allweddol i'ch mab/merch o safbwynt cwblhau asesiadau dan reolaeth ac adolygu ar gyfer yr arholiadau.

Bydd Cyfnod Astudio bob wythnos ar gyfer ddisgyblion blwyddyn 11 yn cychwyn ar nos Fercher rhwng 3.30pm-5.00pm.Bydd y cyfnod astudio cyntaf ar ddydd Mercher, 12 Tachwedd 2014.

THANK YOU

1. MONITORING ATTENDANCE

Thank you for your support for our 'first day of absence' contact system using the communication system 'Keep Kids Safe'. The 'Keep Kids Safe at School' system securely sends text messages and/or automated voice broadcasts direct to parents and carers.

1. Please contact the school, before 8.30am, on the first morning that your child is absent:
   - **Phone**: 01248 712287 (between 8.00am and 8.30am) or 01248 718070 (answer machine – before 8.00am and after 4.00pm) or
   - **e-mail: csg.davidhughes@anglesey.gov.uk.**
2. If the school has not received a call by 8.30 explaining why your child is not in school, we intend to contact the home or workplace.
3. Please note the reason for absence, in the pupil's diary.

Thank you.

2. PUNCTUALITY

The school has procedures in place to monitor punctuality and attendance of our pupils to ensure their academic and social progress. There is a relation between good punctuality, achievement and getting a job. For your information, here are the procedures in place to monitor punctuality of your pupils. Thank you in advance of your co-operation.

STAGE 1

We will notify you through your child's homework diary of any punctuality problems.

STAGE 2

If your child is late on 3 occasions, and then they will be placed on a monitoring card and will be punished break-time and lunch-time.

STAGE 3

If your child's punctuality does not improve after a period of monitoring, then we will call on a meeting between the parents/guardians, Head of Year and a member of the Senior Management Team.

STAGE 4

If the situation does not improve, then the school will contact the Education Welfare Officer.

3. SCHOOL UNIFORM

Thank you for your co-operation in ensuring a consistently high standard of school uniform this term. This ensures appropriate respect for school rules and the general ethos of Ysgol David Hughes. We would also like to remind you of the following:-

- That pupils are allowed to wear one pair of studs in their ears only.
- Pupils are expected to conform to a respectable length and style of hair, which should be of a natural colour.
- Pupils are expected to wear black footwear as part of the school uniform.
- We do not endorse the use of makeup in school, however, if it is worn it should be used sparingly.
- The skirt should be at knee-length.

Thank you.

YEAR 10

Year 10 pupils will be sitting controlled assessments in a number of subjects during the next few weeks. Pupils who would like to use the school's computer/library facilities both during and outside the normal school day are asked to see **Mrs Bethan Parry** (Head of Year 10) to make arrangements.

We also ask for the co-operation of parents in ensuring that pupils make the most effective use of their time during this very important period.

YEAR 11

This year is exceedingly important as success in the external examinations next year depends on consistent effort and hard work throughout the year. Year 11 pupils are facing important internal examinations at the end of this term. The next few weeks are very important for your son/daughter, in order to complete controlled assessments and revise for the examinations.

Weekly Study Periods every Wednesday between 3.30pm-5.00pm.have been arranged for year 11 pupils. The first study period will be on Wednesday, 12 November 2014.

ARHOLIADAU ALLANOL – IONAWR 2015

Bydd nifer o'r myfyrwyr yn sefyll arholiadau modiwlaidd allanol ym mis Ionawr ac felly mae'r hanner tymor hwn yn holl bwysig. **Mae presenoldeb ym mhob un o'r gwersi yn gwbl allweddol, wrth gwrs.** Gall y disgyblion drafod unrhyw broblemau gyda'r athrawon unigol neu'r Pennaeth Blwyddyn.

DEFNYDDIO CAMERÂU

Hoffwn bwysleisio nad yw disgyblion i ddod â chamera (na ffôn symudol) i'r ysgol. Os bydd unrhyw ddisgybl yn cael ei ddal yn ffilmio neu dynnu llun heb ganiatâd yna bydd y mater yn debygol o arwain at waharddiad o'r ysgol.

FFÔN SYMUDOL

Oherwydd y problemau y gall defnyddio ffôn symudol eu hachosi yn ystod gwersi ac arholiadau **ni ddylid ar unrhyw gyfrif dod â nhw i'r ysgol.** Dylai disgyblion weld un o'r Dirprwy Benaethiaid os byddant angen defnyddio ffôn. Yn anffodus, mae lladron hefyd yn targedu ffonau symudol.

GRWPIAU CEFNOGI DISGYBLION

Mae nifer o weithgareddau'n parhau i gael eu cynnal fel rhan o strategaeth Llythrennedd a Rhifedd ac Anghenion Ychwanegol yr ysgol, er mwyn cefnogi disgyblion gyda rhai agweddau o'u gwaith. Gellir cysylltu â Mrs Meinir Williams, Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol os am fwy o fanylion. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:-

- Clwb Sillafu
- Clwb Darllen
- Clwb Llawysgrifen

CERBYDAU MYFYRWYR BLWYDDYN 12+13

Rhaid i fyfyrwyr wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i barcio ar dir yr ysgol.
Rhoddir cerdyn 'Hawl Parcio' (Parking Permit) a dylid arddangos y cerdyn yn ffenest flaen y car.
Bydd gan yr ysgol hawl i wrthod caniatâd neu i ddiddymu caniatâd os yw myfyrwyr yn gyrru mewn ffordd anghyfrifol ar dir yr ysgol.
Cerbydau ar Safle'r Ysgol – Rheolau
Caniateir i fyfyrwyr Blwyddyn 12+13 barcio eu ceir/cerbydau yn y maes parcio wrth y Ganolfan Hamdden dan yr amodau isod:

1. Mae'n rhaid cofrestru rhif y cerbyd ac enw'r gyrrwr gyda'r ysgol os am barcio ar dir yr ysgol. Er mwyn sicrhau tocyn parcio bydd angen dangos trwydded yrru gyfredol, prawf o yswiriant, a Thystysgrif Cofrestru Cerbyd (V5C).
2. Gellir parcio yn y maes parcio wrth y Ganolfan Hamdden, yn unig, rhwng 8.00am a 5.00pm.
3. Ni chaniateir i unrhyw gerbyd symud o'r maes parcio rhwng 8.45 a 3.30, ag eithro cyfnodau "cytundeb" cytunedig neu mewn argyfwng. Bydd yn rhaid trafod eithriadau i'r rheol hwn gyda'r Pennaeth neu Bennaeth Blwyddyn.
4. Ni chaniateir gadael tir yr ysgol mewn cerbyd:-
    - yn ystod amser egwyl,
    - yn ystod amser cinio,
    - pan fydd y bysiau ar dir yr ysgol.
5. Mae'r ysgol yn safle o risg uchel ac mae angen gyrru yn araf ac yn ofalus iawn ar y safle.

BYW'N IACH

Yn Ysgol David Hughes, rydym yn awyddus iawn i hybu ffordd iach o fyw. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn ceisio cynyddu'r opsiynau bwyd iach sydd ar gael i ddisgyblion amser cinio. Rydym yn gwerthfawrogi cefnogaeth rhieni wrth annog disgyblion i fwyta a byw'n iach.

YSGOL DDI-FWG

Hoffwn eich atgoffa bod tu mewn i adeilad yr ysgol a'r tir tu allan yn ardaloedd di-fwg. Ni chaniateir ysmygu ar fws mini'r ysgol nac ar y bysiau ysgol 'chwaith. Mae ysmygu yn y mannau hyn yn erbyn y gyfraith a byddwn yn cysylltu â rhieni os bydd disgyblion yn cael eu dal yn ysmygu.

EXTERNAL EXAMINATIONS – JANUARY 2015

A number of students will be taking external modular examinations in January, therefore this next half-term is extremely important. **Attendance in every lesson is essential, of course,** and students can discuss any problems with their subject teachers or Head of Year.

USING CAMERAS

We would like to emphasize that pupils are not allowed to bring neither a camera nor a mobile phone into school. If any pupil is caught filming or taking a photograph without permission then the matter is likely to lead to an exclusion from school.

MOBILE PHONES

Owing to the problems that mobile phones can cause during lessons and examinations, **they are not, under any circumstances, to be brought into the school.** Pupils should see one of the Deputy Headteachers if they need to use a phone. Unfortunately, mobile phones can also be a target for thieves.

PUPIL SUPPORT GROUPS

We continue to offer a number of activities as part of the school's Literacy and Numeracy Strategy and Additional Needs provision, in order to support pupils with aspects of their work.
Please contact Mrs Meinir Williams, Additional Learning Needs Co-ordinator, if you require further details.
The activities include:-

- Spelling Club
- Reading Club
- Handwriting Club

STUDENT VEHICLES YEARS 12+13

Students must make a written application to park on the school grounds.
A 'Parking Permit' will be given and this should be visible on the car windscreen.
The school has the right to refuse permission or to cancel permission if a student drives in an inappropriate manner on the school grounds.
Vehicles on the School Grounds – Rules
Year 12+13 students will be permitted to park their vehicles in the Sports Centre Car Park provided the following conditions are met:-

1. The vehicle and designated driver must be registered with the school if parking is to be permitted. In order to ensure a parking permit the following documents will need to be seen – current driving licence, proof of insurance and a Vehicle Registration Certificate (V5C).
2. Vehicles can be parked in the Sports Centre Car Park, only, between 8.00am and 5.00pm.
3. No vehicle is to be moved from the car park between 8.45am and 3.30pm. The only exceptions will be agreed "contract" periods or during an emergency. Any exceptions to this rule must be discussed with the Headteacher or Head of Year.
4. No vehicle is to leave the school grounds:-
    - during break time,
    - during lunch time,
    - when buses are on the school site.
5. The school site is a high risk area and vehicles must be driven slowly and very carefully whilst on site.

HEALTHY LIFESTYLE

At Ysgol David Hughes, we wish to promote a healthy lifestyle. In recent years we have been trying to increase the number of healthy options available to pupils at lunchtime. We appreciate parents' support in encouraging pupils to eat and live healthily.

SMOKE-FREE SCHOOL

We would like to remind you that smoking is prohibited within the school building and on the school grounds. Smoking is not permitted on the school minibus or school buses either. Smoking in these areas is against the law. If pupils are caught smoking, the school will contact their parents.

YMDDYGIAD AR Y BYSIAU

Byddwch yn ymwybodol bod y trefniadau ar gyfer cludo'r disgyblion yn ôl ac ymlaen i'r ysgol yn nwylo'r Awdurdod Addysg. Serch hynny, mae gan y cwmnïau bws hawl i wrthod cludiant i ddisgyblion sy'n achosi trafferth. Gofynnwn am gefnogaeth rhieni i sicrhau bod disgyblion yn ymddwyn yn briodol ac yn deall y peryglon – **nid ydynt i ysmygu ar y bws a dylent fod yn eistedd yn eu seddau drwy gydol y siwrnai.**

TOCYN TEITHIO

Mae angen i ddisgyblion Blwyddyn 12 a 13 sy'n dymuno teithio ar fws ysgol wneud cais am docyn teithio. Mae gan ddisgyblion Blynyddoedd 7-11 sy'n byw llai na thair milltir o'r ysgol hefyd hawl i wneud cais am docyn teithio.

Cost y tocyn yw £60. Mae ffurflenni cais i'w cael o swyddfa'r ysgol ac i'w dychwelyd i:

Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff)
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
LL77 7TW

CROESFAN – PWYSIG

Rydym yn derbyn galwadau ffôn yn rheolaidd gan fodurwyr sy'n bryderus ynglŷn ag ymddygiad disgyblion wrth y groesfan tu allan i giât (isaf) yr ysgol. Er gwaethaf ein hymdrechion i rybuddio'r disgyblion am y peryglon, maent yn parhau i gamddefnyddio'r groesfan. Nid yw'n bosib i staff yr ysgol arolygu'r groesfan drwy gydol y cyfnodau hynny a all fod yn beryglus.

Gofynnir i bawb ohonoch fel rhieni rybuddio eich plentyn/plant am y peryglon. Ofnwn y bydd damwain ddifrifol yn digwydd oni thelir sylw i'r rhybuddion.

Ni chaniateir i ddisgyblion Blynyddoedd 7-11 adael tir yr ysgol yn ystod yr egwyl foreol. Dim ond Blynyddoedd 10 ac 11 sy'n cael mynd allan amser cinio gyda chaniatâd rhieni a 'pass' ysgol.
NID OES CANIATÃD I'R DISGYBLION ADAEL TIR YR YSGOL AR ÔL I'R BYSIAU EU GOLLWNG WRTH YR ADEILAD YN Y BORE.

AILGYLCHU

Er mwyn ceisio lleihau sbwriel a gwastraff, mae'r ysgol yn ceisio ailgylchu cymaint o bapur a photeli plastig â phosib.
Ceir bocsys ailgylchu pwrpasol yn yr ystafelloedd dosbarth a'r swyddfeydd.

Y CYNGOR DISGYBLION

Mae Cyngor Disgyblion yr ysgol wedi ei sefydlu ar gyfer 2014/2015 ac mae'r grwpiau ysgol/blwyddyn wedi cychwyn ar eu cyfarfodydd.Mae Uwch Swyddogion hefyd wedi eu henwebu o blith myfyrwyr Blwyddyn 12 a 13. Bydd yr Uwch Swyddogion yn cynrychioli'r disgyblion yng nghyfarfodydd Corff Llywodraethu'r ysgol.

BEHAVIOUR ON SCHOOL BUSES

You will be aware that the arrangements for transporting the pupils to and from school are in the hands of the Local Education Authority. However, the bus companies do have a right to refuse to transport troublesome pupils on school buses. We are aware that such pupils represent a small minority and we ask for your support in ensuring that pupils do behave in an appropriate manner and understand the dangers of not doing so – **they must not smoke on the buses and should remain seated throughout the journey to and from school.**

BUS PASS

Year 12 and 13 students who wish to travel on a school bus are required to apply for a bus pass.
Year 7-11 pupils who live less than 3 miles from the school are also entitled to apply for a bus pass.

The bus pass costs £60. Application forms are available from the school's Main Office and should be returned to:

Head of Service (Highways and Waste Management)
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

PEDESTRIAN CROSSING – IMPORTANT

We regularly receive phone calls from concerned motorists regarding the behaviour of pupils in the vicinity of the pedestrian crossing outside the school gates. Despite our efforts to warn pupils of the dangers it would seem that a small number are still mis-using the crossing. It is not possible for school staff to supervise the crossing throughout the potentially dangerous times.

We, therefore, ask you all as parents to warn your child/children of the dangers. We fear that a serious accident will occur unless these warnings are heeded.

Pupils in Years 7-11 are not allowed to leave the school grounds during the morning break. Only Year 10/11 pupils are allowed outside of the school grounds at lunchtime provided they have parental consent and a school pass. PUPILS ARE NOT PERMITTED TO LEAVE THE SCHOOL GROUNDS ONCE THE BUSES HAVE DROPPED THEM OFF FIRST THING IN THE MORNING.

RECYCLING

In order to reduce litter and waste, the school is making an effort to recycle paper and plastic bottles. Recycling boxes are located in the classrooms and offices for this purpose.

PUPILS' COUNCIL

The School Pupils' Council has been established for 2014/2015 and the whole school/year groups have already held their initial meetings. Senior Officers have also been elected from Year 12 and 13 students. The Senior Officers will be representing the pupils in the School Governing Body meetings.

EIDDO

Hoffwn eich atgoffa mai cyfrifoldeb y disgybl yw ei eiddo personol. Ni ddylid gadael dim byd gwerthfawr o gwmpas yr ysgol, er enghraifft ar ben y loceri. Gellir gadael unrhyw arian yn y Swyddfa Fawr hyd ddiwedd y dydd, pe dymunir. **Ni ddylai disgyblion ddod â ffôn symudol na chwaraewyr cerddoriaeth i'r ysgol.**

NWYDDAU COLL

Ar hyn o bryd mae nifer fawr o eitemau, gan cynnwys cotiau, siwmperi a dillad ymarfer corff wedi eu gadael yn yr ystafell nwyddau coll. Yn amlwg ni ellir eu cadw am amser amhenodol. Os yw eich plentyn wedi colli eitemau, tybed a fuasech cystal â galw yn y Swyddfa i'w casglu? Os na fydd yr eitemau wedi eu hawlio erbyn **dydd Llun, 24 Tachwedd 2014** yna bydd dim dewis ond cael gwared â'r eitemau. Diolch.

WYTHNOS GWRTH FWLIO

Trefnir nifer o weithgareddau a gwasanaethau arbennig ar gyfer Wythnos Gwrth Fwlio a fydd yn digwydd yn ystod yr wythnos
17-21 Tachwedd 2014.

APÊL 'TEAMS4U'
(OPERATION CHRISTMAS CHILD)

Mae apêl yn cael ei lansio i gasglu bocsys eto eleni. Dyddiad casglu'r bocsys o'r ysgol yw
20 Tachwedd.
Diolch yn fawr am eich parodrwydd i gefnogi'r apêl hon.

FFAIR A RAFFL FAWR NADOLIG

Nos Wener, 28 Tachwedd 2014 am 6.00pm

Fe fydd Ffair Nadolig yr ysgol yn cael ei chynnal yn Neuadd yr ysgol ar nos Wener, 28 Tachwedd 2014. Bydd nifer o stondinau yn cynnwys cacennau, llyfrau, tombola a hefyd nifer o stondinau yn gwerthu cynnyrch lleol.

Bydd raffl fawr gyda'r wobr gyntaf yn £100 a nifer o wobrau eraill yn cael ei thynnu.Gofynnwn am eich cymorth i werthu a phrynu tocynnau raffl a byddwn yn dosbarthu tocynnau raffl yn ystod y mis yma.

'Rydym angen gwirfoddolwyr i helpu gyda'r Ffair a byddwn yn ddiolchgar, petai chi yn cysylltu gyda Mrs Sharon Disley yn yr ysgol, os gallwch ein helpu.

Gwerthfawrogir eich cefnogaeth, unwaith eto, i wella adnoddau'r ysgol.

Os oes gan unrhyw un diddordeb mewn archebu stondin yn y Ffair, a fuasech gystal â chysylltu â
Mrs Sharon Disley ar 01248 712287.

GWASANAETH NADOLIG

Bydd ymarferion ar gyfer y gwasanaeth Nadolig yn dechrau'n fuan ar ôl yr Hanner Tymor. Dylai unrhyw ddisgybl sydd â diddordeb mewn ymuno â'r cor iau Bl 7-9 neu hŷn, fynd i weld Mrs Gwennant Roberts yn yr Adran Gerdd.

Diolch.

LLWYDDIANNAU

Cofiwch gysylltu â'r ysgol am lwyddiant neu gyfraniad arbennig disgyblion unigol neu grwpiau o ddisgyblion. Gofynnir i chi adael yr wybodaeth yn y Swyddfa Fawr neu gydag aelod o staff er mwyn i ni gael rhannu'r newyddion ac ymfalchïo yn llwyddiant ein disgyblion. Diolch.

PROPERTY

You are reminded that personal property is the individual pupil's responsibility. Valuables should not be left lying about in school, e.g., on top of the lockers. Money and valuables can be left in the Main Office until the end of the day if necessary. **Mobile phones, music players etc should not be brought into school.**

LOST PROPERTY

A large amount of clothing including coats, jumpers and physical education kits have been left in the lost property room. These items can not be kept for an indefinite period. If your child has lost items of clothing, please call in at the Office to collect them. If they are not claimed by
Monday, 24 November 2014 then they will be disposed of. Thank you.

ANTI-BULLYINGWEEK

A number of activities and assemblies have been arranged for Anti-Bullying Week, which will take place during the week **17-21 November 2014**.

TEAMS4U APPEAL (OPERATION CHRISTMAS CHILD)

An appeal has been launched in the school this term and the collection date for the boxes is set for **20 November**.
Thank you very much for your support.

CHRISTMAS FAIR AND RAFFLE

Friday, 28 November 2014 at 6.00pm

The Christmas Fair will be held in the school hall on Friday, 28 November 2014. There will be a variety of stalls, including cakes, books, tombola and also a few stalls selling local produce.

The Christmas Raffle will be drawn with a first prize of £100 and other prizes. Your assistance is requested in the selling and buying of raffle tickets, which will be distributed during this month.

We need volunteers to help with the Fair, and we would be grateful if you could contact Mrs Sharon Disley at the school, should you be able to assist.

We appreciate your support, once again, to improve the school's resources.

Should anyone be interested in requiring a stall for the Fair, please contact Mrs Sharon Disley on 01248 712287.

CHRISTMAS SERVICE

Rehearsals for the Christmas service will start shortly after the Half Term. If any pupil wishes to become a member of the choir Yr 7-9 or older, please see Mrs Gwennant Roberts in the Music Department.

Thank you.

SUCCESSES

Please remember to contact the school with information about individual pupils, or groups of pupils' achievements. The information can be left in the Main Office or given to a member of staff and will enable us to share news of successes and achievements with others. Thank you.

NEWYDDION O'R ADRAN DECHNOLEG

Gwobrau Arloesedd CBAC - TGAU/Lefel UG/Lefel Uwch

Dros y blynyddoedd mae llawer o ddisgyblion arholiad Technoleg wedi cael eu dewis i fynd ymlaen i wobrau Arloesi CBAC (Bwrdd Arholi), gyda rhai ffodus iawn yn cael llwyddiant cenedlaethol. Nid eithriad yw disgyblion eleni. Llongyfarchwn ddau ddisgybl ar gael eu dewis i fynd a'u gwaith ymlaen i'r gwobrau yma, sef **Joe Vousden** (Lefel Uwch) a **Davey Brookes** (Lefel UG). Pob lwc i'r ddau!

CA3

'Rydym wedi ail-drefnu llawer o gyrsiau ym mlwyddyn 7 ac 8. 'Rydym wedi gwneud hyn er mwyn cynnig i ddysgwyr yr ystod ac amrywiaeth gorau posib o brofiadau. Gobeithiwn y bydd y profiadau yma yn mynd i ymestyn a rhoi her fwy i ddysgwyr. Yn ogystal â'u sgiliau Dylunio a Thechnoleg, bydd mwy o gyfleoedd i ddysgwyr gael profiadau i fireinio eu sgiliau llythrennedd a rhifedd.

CA4

Un datblygiad newydd cyffrous yw cyflwyno cwrs Tecstiliau TGAU i'n hystod o bynciau. Gobeithio i'r cwrs gael cefnogaeth a llwyddiant i'r dyfodol.

Argraffydd 3D!

Eleni, rydym yn ffodus iawn o gael cyfarpar newydd at ein hoffer CAM - sef argraffydd 3D. Gobeithiwn gyflwyno prosiect newydd yng nghyfnod Allweddol 3 i wneud defnydd o'r dechnoleg gyfoes yma.

Diolch

Hoffem gymryd y cyfle i ddiolch i holl rieni am eu cefnogaeth barod bob amser. Mae eich rhan chi yn llwyddiant y disgyblion yn amhrisiadwy. Fel adran, rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

Dymuna'r athrawon Technoleg Bwyd ddiolch i'r rhieni am eu cefnogaeth gyda darparu cynhwysion ar gyfer y gwersi ymarferol.

Eleni, rydym yn parhau efo'r trefniant sydd wedi bodoli er rai blynyddoedd bellach sef anfon rhestr cynhwysion ac unrhyw ofynion pellach gartref yn y llyfr cyswllt o leiaf 7 diwrnod cyn y wers. Os oes unrhyw anhawster, cofiwch gysylltu â'r adran.

NEWS FROM THE TECHNOLOGY DEPARTMENT

WJEC Innovation Awards – GCSE/AS/A

Over the years many Technology pupils have been selected for consideration for the WJEC (examining board) Innovation Awards, with some very fortunate ones having national success. This year's pupils are no exception. We congratulate two pupils on being chosen to have their work considered for these awards – **Joe Vousden** (A Level) and **Davey Brookes** (AS Level). Good luck to both of them!

KS3

We have revamped many courses in years 7 and 8. We have done this in order to offer learners the best possible range and variety of experiences. We hope that these experiences are going to stretch the pupils and challenge them further. In addition to their D&T skills there will be more opportunities for learners to gain experiences to refine their literacy and numeracy skills.

KS4

One exciting new development is delivering a GCSE Textiles course in a range of subjects. We hope for support and success for this course in the future.

3D Printer!

This year we are very fortunate to have received new apparatus for our CAM equipment – a 3D printer. We hope to introduce a new project in key stage 3 to make use of this up-to-date equipment.

Thank you

We would like to take this opportunity to thank all parents for their willing support at all times. Your part in the pupils' success is invaluable. As a department we truly appreciate this.

The Food Technology teachers wish to thank the parents for their support with providing ingredients for the practical lessons.

This year we continue with the arrangements which have existed for many years of sending a list of ingredients and any further requirements home via the contact book at least 7 days before the lesson. If there are any difficulties, please contact the department.

CD 'CYNHAEAF'

Mae edrych ymlaen garw am y CD newydd sydd i'w rhyddhau ym Mis Hydref gan ddisgyblion dawnus Ysgol David Hughes. Bydd 'Cynhaeaf' yn cynnwys casgliad o ganeuon a charolau. Bydd ar werth yn yr ysgol a'r siop lyfrau lleol am £10 punt.

We are greatly looking forward to the release of the new CD in October by Ysgol David Hughes' talented pupils. 'Cynhaeaf' will include a collection of songs and carols. It will be on sale in the school and in the local book shop for £10.

CLWB CANT / ONE HUNDRED CLUB

Enillwyr Mis Medi 2014 / September 2014 Winners		
Mrs Helen Morgan	38	£26.50

Enillwyr Mis Hydref 2014 / October 2014 Winners		
Mrs Diana Mahon	44	£26.50

~~~
~~~

TYMOR YR HYDREF / AUTUMN TERM 2014/2015

DIGWYDDIADAU / EVENTS

Cynhaliwyd **diwrnod hyfforddiant** ar gyfer staff ar 15 Hydref 2014.	**15** October 2014 was a **training day** for staff.
Mae nifer o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 10 ac 11 yn dilyn **cyrsiau galwedigaethol** yng Ngholeg Menai.	**A** number of pupils from Years 10 and 11 are attending **vocational courses** at Coleg Menai.
Mae grŵp o **ddarpar athrawon** o Brifysgolion Bangor ac Aberystwyth wedi cychwyn ar eu cyfnod ymarfer dysgu gyda ni.	**A** group of **trainee teachers** from Bangor and Aberystwyth Universities have begun their teaching practice with us.
Mae nifer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn **gweithgareddau '5 x 60'**, sef ymgyrch Cyngor Chwaraeon Cymru i annog pobl ifanc i wneud o leiaf 5 awr o ymarfer corff yr wythnos. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau ar gael, gan gynnwys dawnsio stryd, table tennis a badminton.	**A** number of pupils have been participating in **'5 x 60' activities** as part of the Sports Council for Wales' campaign to encourage young people to do at least 5 hours' exercise every week. The wide range of activities available includes street dance, table tennis and badminton.
Trefnodd myfyrwyr Blwyddyn 12 sy'n astudio'r BAC fore coffi yn yr Ystafell Staff er mwyn codi arian at apêl cancr **Macmillan**.	**S**tudents in Year 12 following the Welsh BAC arranged a coffee morning in aid of the **Macmillan** cancer appeal.
Daeth nifer o **siaradwyr gwadd** i'r ysgol , ee · Mrs Awen Dodd, Swyddog Fforwm Ieuenctid 'Llais Ni' · Cynghorydd Lewis Davies, Cyngor Sir Ynys Môn · Cynghorydd Alan Mummery, Cyngor Sir Ynys Môn · Swyddog Rhaglen '5 x 60'	**A** number of **guest speakers** visited the school, eg · Mrs Awen Dodd, 'Llais Ni' Youth Forum Officer · Councillor Lewis Davies, Anglesey County Council · Councillor Alan Mummery, Anglesey County Council · '5 x 60' Programme Officer
Cynhaliwyd cyfarfodydd cyntaf y **Cynghorau Blwyddyn** a'r **Cyngor Ysgol**.	**T**he first **Year Council** and **School Council** meetings were held.
Eleni, dewiswyd **Uwch Swyddogion** i'r ysgol ymysg Blwyddyn 12 + 13, yn hytrach na Phrif Fachgen a Phrif Ferch. **Elin Steele** a **Megan Roberts** yw'r Uwch Swyddogion am 2014-2015 gyda **Zoe Hughes** a **Deio Withers** yn Ddirprwy Uwch Swyddogion.	**T**his year, Senior Officers were chosen amongst Years 12+13, instead of a Head Boy and Head Girl. **Elin Steele** and **Megan Roberts** are the Senior Officers with **Zoe Hughes** and **Deio Withers** as Deputy Senior Officers for 2014-2015.
Cafwyd cyflwyniad gan **Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol** i fyfyrwyr Blwyddyn 13 gan gynrychiolydd o'r Coleg.	**P**resentation by a representative of the **Welsh National College** was given to Year 13 students.
Cafwyd '**Diwrnod Posau**' i ddisgyblion Blwyddyn 7 a 8 yn yr ysgol gyda chwmni 'Happy Puzzle'.	**A Puzzle Day** was organised for Years 7+8 pupils in the school by the Happy Puzzle Company.
Cynhaliwyd **noson agored** lwyddiannus iawn ar gyfer rhieni disgyblion Blwyddyn 6 (cynradd) ar **11 Tachwedd 2014**.	**T**he **open evening** for parents of Year 6 (primary) held on **11 November 2014** was very successful.
Mae **clwb astudio'n** cael ei gynnal ar ôl ysgol wedi cychwyn ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 sy'n dymuno gweithio ar eu gwaith cwrs neu waith cartref a pharatoi ar gyfer eu harholiadau.	**S**ome pupils in Year 11 have started attending an after-school **study club** where they can work on coursework or homework and prepare for their exams.
Cafwyd diwrnod di-wisg-ysgol a threfnu amrywiol weithgareddau a choginio a gwerthu bisgedi Pudsey ar gyfer apêl **Plant mewn Angen**.	**A** 'non-uniform day' and various activities were arranged in order to raise money for the **Children in Need** Appeal. Pudsey cakes and biscuits were also baked and sold during morning break.
Panel o Westeion ar gyfer sesiwn '**Hawl i Holi**' ar Wleidyddiaeth i fyfyrwyr Blwyddyn 12 oedd:- · Mr Rhun Ap Iorwerth, Plaid Cymru · Mr Martin Parry, Llafur · Mr Aled Morris Jones, Rhyddfrydwr · Ms Michelle Willis, Ceidwadwr Cadeirwyd y cyfarfod gan Dewi Llwyd o 'Pawb a'i Farn'	**Panel of Guest Speakers for** Year 12 students '**Question Time**' session on Politics: · Mr Rhun Ap Iorwerth, Plaid Cymru · Mr Martin Parry, Labour · Mr Aled Morris Jones, Liberals · Ms Michelle Willis, Conservatives The meeting was chaired by Dewi Llwyd of 'Pawb a'i Farn'

YMWELIADAU ADDYSGOL / EDUCATIONAL VISITS

Aeth myfyrwyr o Flwyddyn 12 a 13 i weld **arddangosfa** o waith Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol **Technoleg** yn Venue Cymru, Llandudno.	**S**tudents from Year 12 and 13 went to see the **exhibition** of AS/A Level **Technology** work at Venue Cymru, Llandudno.
Aeth grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n astudio BTEC Chwaraeon i Ganolfan Conway, Llanfairpwll i gymryd rhan mewn **cwrs caiacio**.	**A** group of Year 11 pupils studying BTEC Sport visited the Conway Centre, Llanfairpwll to participate in a **kayaking course**.
Bu 2 fyfyriwr Blwyddyn 12 gymryd rhan mewn **Ffug Gyngor Undeb Ewropeaidd** yng Nghaerdydd ym mis Medi.	**T**wo Year 12 students part in a **Mock European Union Council** in Cardiff during September.
Bu disgyblion Blwyddyn 11 sy'n astudio Daearyddiaeth ar **ddiwrnod gwaith maes** yn astudio twristiaeth ym Miwmares.	**A** group of Year 11 pupils studying Geography had a **field trip day** studying tourism in Beaumaris.
Aeth rai disgyblion Blwyddyn 7-13 fu'n ymwneud â'r Eisteddfod yr Urdd weld perfformiad o'r sioe gerdd '**Wicked**' yn Theatr Lerpwl Empire, Lerpwl.	**S**ome Year 7-13 pupils that were involved with the 'Urdd Eisteddfod' went to see a performance of the musical '**Wicked**' at Liverpool Empire Theatre in Liverpool.
Cafodd myfyrwyr Blwyddyn 12 sy'n astudio Daearyddiaeth diwrnod gwaith maes yn dilyn yr **Afon Ogwen**.	**Y**ear 12 students studying Geography had a field trip following the **Ogwen river**.
Aeth grŵp o fyfyrwyr Blwyddyn 12 sy'n astudio Hanes ymweld â'r **Archifdy** ac **Oriel Môn** yn Llangefni, er mwyn gwneud ymchwil a pharatoi ar gyfer ei **Prosiect Rhyfel Byd Cyntaf**, a fydd yn cael ei harddangos yn yr Oriel yn y dyfodol agos.	**A** group of Year 12 students who study History visited the **Archives** and **Oriel Môn** in Llangefni, to make research and prepare for their **World War One Project**, which will be exhibited at the Oriel in the near future.
Bu rai disgyblion yn derbyn **gwersi sgïo**, drwy Weithgaredd 5x60 yng **Nghanolfan Sgïo, Llandudno** mewn 4 sesiwn.	**S**ome pupils received **skiing lessons**, through 5x60 activity at **Llandudno Ski Centre** in 4 sessions.
Treuliodd myfyrwyr **Blwyddyn 12** deuddydd yng **Nghaerdydd**. Buont yn ymweld â Chastell Caerdydd, Canolfan y Mileniwm a'r Senedd.	**Year 12** students spent two days in **Cardiff**. They visited Cardiff Castle, the Millennium Centre and the Senedd.
Trefnodd yr Adran Almaeneg daith i Wachtberg-Villip, Ahrwiler, **yr Almaen.** Roedd hwn yn gyfle i ddisgyblion sy'n astudio Almaeneg ymarfer eu sgiliau iaith a chael blas ar y diwylliant.	**T**he German Department organised a visit to Wachtberg-Villip, Ahrwiler, **Germany**. This was an opportunity for pupils studying German to practice their language skills and learn about the culture.
Bu rai disgyblion yr ysgol gymryd rhan mewn **Cynhadledd Llysgenhadon Ifanc Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd** yn ddiweddar.	**S**ome pupils took part in a Sports Wales **Young Ambassadors Conference in Cardiff** recently.
Bu aelodau o **Gyngor Ysgol** yn cymryd rhan mewn gweithgaredd Adeiladu Tîm yng Nghanolfan Conwy ble buont yn adeiladu rafft ddiwedd Hydref.	**M**embers of the **School Council** took part in a Team Building activity at the Conway centre, where they built a raft.
Aeth grŵp o fyfyrwyr **Blwyddyn 12 a 13** ar Daith Adran Hanes i **Ferlin** am 4 diwrnod.	**A** group of **Year 12 and 13** students visited **Berlin** for 4 days, which was organised by the History department.
Cymerodd rai disgyblion Blwyddyn 9 ran mewn gweithgaredd **Menter - Llwyddo'n Lleol** yng Ngholeg Menai, Llangefni.	**A** group of Year 9 pupils took part in some **Llwyddo'n Lleol - Enterprise** activities at Coleg Menai, Llangefni.
Aeth grŵp o fyfyrwyr **Blwyddyn 12** sy'n astudio **Addysg Grefyddol** i ymweld â chanolfan Fwdhaidd a synagog ym **Manceinion**.	**A** group of **Year 12 Religious Education** students visited a Buddhist centre and a synagogue in **Manchester**.
Mae grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n astudio BTEC Chwaraeon yn mynychu **cwrs dringo** yng Nghanolfan Wal Ddringo Indy, Llanfairpwll, fel rhan o'u cwrs.	**A** group of Year 11 pupils studying **BTEC Sport** are participating in a **climbing course** at the Indy Climbing Wall, Llanfairpwll as part of their course.
Aeth grŵp o fyfyrwyr **Blwyddyn 12** fynychu cyflwyniad ar **Brosiect 'Profi'** sydd yn cael ei drefnu gan Pontio.	**A** group of **Year 12** students attended a presentation on the **'Profi' project** which is arranged by Pontio.

LLWYDDIANNAU/ SUCCESSES

Eleni, cynhaliwyd **Noson Gwobrwyo** gynta' yr ysgol ym mis Medi. Gwobrwywyd y disgyblion canlynol:

Cymraeg Mamiaith TGAU - Carys Thornton
Cymraeg Ailiaith TGAU - Isabelle Carter
Cymraeg Lefel A - Ianto Gruffydd
Addysg Gorfforol TGAU - Gemma Hughes
Addysg Gorfforol Lefel A -Tom O'Brien
Cerdd TGAU - Cariad Hughes
Cerdd Lefel A - Steffan Owen
Addysg Grefyddol TGAU - Chloe Lindley
Addysg Grefyddol Lefel A - Alicia Mills
Almaeneg TGAU - Eryn Evans
Almaeneg Lefel A - Elena Milner
Busnes TGAU - James Hughes
Busnes Lefel A - Bethan Williams
Celf TGAU - Amber Hughes
Celf Lefel A - Aerin Vaughan
Gwobr Goffa Cyril Lloyd - Aerin Vaughan
Gwobr Goffa Cyril Lloyd - Cara Powell
Arlwyo TGAU - Rosie Shambrook
Cyfryngau TGAU - Abdulrahman Eskandrani
Cyfraith Lefel A - Hannah Oakes
Cymdeithaseg Lefel A - Ceri Thomas
Seicoleg Lefel A - Jodie Assinder
Daearyddiaeth TGAU - Matthew Williams
Daearyddiaeth Lefel A - Constance Beardsley
Drama TGAU - Laura O'Hanlon Elms
Drama Lefel A - Jessica Greatwood
Ysgoloriaeth F C Baines - Samuel Parry
Ysgoloriaeth F C Baines - Benn Flatley
Gwobr Goffa Hugh Gareth Rees - Gwennan Môn Roberts
Gwobr Goffa Dafydd Whittall - Ioan Gwyn
Technoleg TGAU - Sean Clapham
Technoleg Lefel A - Joe Vousden
Ffrangeg TGAU - Sioned Williams
Ffrangeg Lefel A - Mared Gruffydd
Gwyddoniaeth TGAU - Joe Anderson
Bywydeg Lefel A - Cara Jones
Cemeg Lefel A - Fiona Coutts
Ffiseg Lefel A - Awel-Medi Evans
Hanes TGAU - Mathew Jones
Hanes Lefel A - Aphra Furlong
Iechyd a Gofal TGAU - Sophie Chamberlain
Iechyd a Gofal Lefel A - Mared Parry
Mathemateg TGAU - Elliw Powell
Mathemateg Lefel A - Catrin Cheung
Saesneg Iaith TGAU - Josephine Davies
Saesneg Llên TGAU - Siwan Jones
Saesneg Lefel A - Alex Jago
Technoleg Gwybodaeth TGAU - Bryony Geoghan
Technoleg Gwybodaeth Lefel A - Shaun Thomas
Cyfranogiad Blwyddyn 11 - Ffion Elin Davies
Cyfranogiad Blwyddyn 13 - Huw Harvey
Disgybl gorau Blwyddyn 11 - Alis Jones
Disgybl gorau Blwyddyn 13 - Elis Roberts

This year, the school's first **Prize Giving** ceremony was held beginning of September. The following pupils were awarded:

Welsh First Language GCSE - Carys Thornton
Welsh Second Language GCSE - Isabelle Carter
Welsh A Level - Ianto Gruffydd
Physical Education GCSE - Gemma Hughes
Physical Education A Level - Tom O'Brien
Music GCSE - Cariad Hughes
Music A Level - Steffan Owen
Religious Education GCSE - Chloe Lindley
Religious Education A Level - Alicia Mills
German GCSE - Eryn Evans
German A Level - Elena Milner
Business GCSE - James Hughes
Business A Level - Bethan Williams
Art GCSE - Amber Hughes
Art A Level - Aerin Vaughan
Cyril Lloyd Memorial Prize - Aerin Vaughan
Cyril Lloyd Memorial Prize - Cara Powell
Catering GCSE - Rosie Shambrook
Media GCSE - Abdulrahman Eskandrani
Law A Level - Hannah Oakes
Sociology A Level - Ceri Thomas
Psychology A Level - Jodie Assinder
Geography GCSE - Matthew Williams
Geography A Level - Constance Beardsley
Drama GCSE - Laura O'Hanlon Elms
Drama A Level - Jessica Greatwood
F C Baines Scholarship - Samuel Parry
F C Baines Scholarship - Benn Flatley
Hugh Gareth Rees Memorial Prize - Gwennan Môn Roberts
Dafydd Whittall Memorial Prize - Ioan Gwyn
Technology GCSE - Sean Clapham
Technology A Level - Joe Vousden
French GCSE - Sioned Williams
French A Level - Mared Gruffydd
Science GCSE - Joe Anderson
Biology A Level - Cara Jones
Chemistry A Level - Fiona Coutts
Physics A Level - Awel-Medi Evans
History GCSE - Mathew Jones
History A Level - Aphra Furlong
Health and Social Care GCSE - Sophie Chamberlain
Health and Social Care A Level - Mared Parry
Mathematics GCSE - Elliw Powell
Mathematics A Level - Catrin Cheung
English Language GCSE - Josephine Davies
English Literature GCSE - Siwan Jones
English A Level - Alex Jago
Information Technology GCSE - Bryony Geoghan
Information Technology A Level - Shaun Thomas
Year 11 Participation - Ffion Elin Davies
Year 13 Participation - Huw Harvey
Year 11 Best Pupil- Alis Jones
Year 13 Best Pupil - Elis Roberts

Cafwyd **llwyddiant ym myd chwaraeon** yn ystod yr hanner tymor cyntaf.	**T**eams and individuals celebrated **success in various sports** during the first half term.
Cafwyd **Eisteddfod Ysgol** lwyddiannus iawn, gyda nifer fawr o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn cystadlaethau llwyfan a gwaith cartref neu'n hyfforddi disgyblion eraill.	**W**e had a very successful **School Eisteddfod**, with many pupils participating in stage and homework competitions or helping with preparations.
Llongyfarchiadau i amryw ddisgyblion am eu **llwyddiannau cerddorol** yn ystod gwyliau'r Haf gyda **Band Pres Cymru**, **Cerddorfa Gogledd Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru a Chwmni Opera Cymru.**	**C**ongratulations to various pupils on their **musical successes** during the Summer Holidays with the **Brass Band of Wales**, the **North Wales Orchestra**, the **National Youth Orchestra of Wales** and the **Welsh National Opera Company**.
Hefyd, llongyfarchiadau i Steffan Lloyd Owen ar ei lwyddiant yn yr **Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Gâr** ym mis Awst.	**A**lso, congratulations to Steffan Lloyd Owen on his success at the **Carmarthenshire National Eisteddfod** in August.
Cafodd nifer o ddisgyblion lwyddiant dros yr haf, pan gafodd eu gwaith celf eu harddangos yng nghystadleuaeth '**Art for All**' yng **Nghanolfan Ucheldre, Caergybi**.	**A** number of pupils were successful over the summer when their art work was displayed at the '**Art for All**' competition held at the **Ucheldre Centre in Holyhead**.
Llongyfarchiadau i amryw ddisgyblion a gymerodd ran mewn cystadleuaeth **Caiacio Ysgolion Ynys Môn y**n ddiweddar. Aeth rai disgyblion ymlaen i rownd derfynol ysgolion Gogledd Cymru yn ddiweddarach.	**C**ongratulations to various pupils that took part in the **Anglesey Schools Kayaking** competition recently. Following this, some pupils then took part in the North Wales Schools championships.
Llongyfarchiadau i **Elan Gilford** Blwyddyn 11 ar gael ei gwobrwyo yn Prif Bencampwr Pobl Ifanc 2014 mewn seremoni arbennig yng Ngwesty'r San Siôr, Llandudno ddechrau Hydref.	**C**ongratulations to **Elan Gilford** Year 11 who was awarded the Overall Young Persons Champion Award at a special ceremony at the St. George's Hotel, Llandudno beginning October.
Llongyfarchiadau i **Luc Sharrock** Blwyddyn 8 am ddod yn 6ed trwy Gymru ar ôl 2 ddiwrnod o Hwylio yn y "Welsh Zones Championships" yn Aberdaugleddau a chael ei ddewis i fod yn rhan o sgwad Gogledd Cymru.	**C**ongratulations to **Luc Sharrock** Year 8 who finished 6th in the Welsh Zones Sailing Championship in Milford Haven. Luc has been selected for the North Wales squad.

TREFNIADAU ARGYFWNG
CAU'R YSGOL

Byddy trefniadau'n ddibynnol ar natur yr argyfwng ond byddwn bob amser yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau diogelwch y disgyblion a staff yr ysgol.

Dyma'r camau a fydd yn cael eu cymryd o fewn yr ysgol:-

1. Cesglir y disgyblion at ei gilydd mewn grwpiau blwyddyn mewn gwahanol ganolfannau yn yr ysgol.
2. Trefnir bod y cwmnïau bws yn dod i'r ysgol i 'nôl y disgyblion.
3. Hysbysir y gorsafoedd radio canlynol bod angen cau'r ysgol:-
   BBC Radio Cymru, Radio Wales a Capital FM.
4. Cynghorir rhieni hefyd i edrych ar wefan yr ysgol am unrhyw wybodaeth ynglŷn â chau'r ysgol - www.ysgoldavidhughes.org.
5. Cyhoeddir i'r disgyblion **nad ydynt i adael tir yr ysgol (cerdded adref na dal bws) oni bai bod ganddynt fynediad i'w cartrefi neu dŷ perthynas/ffrind agos** (yn unol â'r drefn deuluol).
6. Gelwir y disgyblion i'r bysiau, fesul bws.
7. Defnyddir bws mini'r ysgol i gludo rhai disgyblion gartref os bydd angen.

Anaml y bydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi, ac rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth parod pan fydd angen gwneud penderfyniad brys.Gallwn eich sicrhau ein bod bob amser yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y disgyblion.

Hoffwn dynnu eich sylw yn arbennig at bwynt 5 uchod, sef, yr angen i ddisgyblion fod yn glir ynglŷn â'r trefniadau 'adref' mewn sefyllfa o argyfwng.

Gofynnir i chi sicrhau bod eich plentyn yn ymwybodol o'r trefniadau y dymunwch iddynt eu dilyn mewn argyfwng.

Pwysleisiwn eto na ddylai disgyblion adael tir yr ysgol os nad oes mynediad i'w cartrefi neu gartref perthynas/cyfaill, wedi ei drefnu gennych chi o flaen llaw. Byddwn yn sicrhau bod y disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol hyd at yr amser y byddwch wedi gwneud trefniadau iddynt fynd adref.

Cofiwch gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â hyn.

ARRANGEMENTS IN AN EMERGENCY
CLOSING THE SCHOOL

The arrangements will depend on the nature of the emergency but the safety of the pupils and school staff will be our priority at all times.

These are the steps that will be taken within the school:

1. Pupils will be gathered together in year groups at different assembly points in the school.
2. We will arrange for the buses to come to the school to collect the pupils.
3. The following radio stations will be notified that the school is to close:-
   BBC Radio Cymru, Radio Wales and Capital FM.
4. Parents are also advised to check the school website for any information regarding closing the school – www.ysgoldavidhughes.org.
5. The pupils will be informed that they are **not to leave the school (walking or on a bus) unless they have entry to their homes or a close relative/friend's home**(according to the family's arrangements).
6. The pupils will be called to the buses, one bus at a time.
7. The school minibus will be used to transport some pupils home if necessary.

This type of situation is very rare, and we appreciate your support when decisions have to be made quickly in an emergency. We can assure you that the pupils' safety is our priority at all times.

We would like to draw your attention to point 5 above in particular, which emphasizes the need for pupils to be clear about the arrangements 'at home' in an emergency situation.

Please ensure that your child is fully aware of the procedures that you wish them to follow in such an emergency.

We emphasize once again that pupils should not leave the school site if they do not have entry to their homes or a relative/close friend's home, as arranged by you beforehand. Alternatively, we will ensure that the pupils are safe at the school until you have made arrangements for them to go home.

Please do not hesitate to contact us if you have any questions on this matter.